Y CYFANSODDIAD adran 13 – TABL 2

SWYDDOGAETHAU NI CHANIATEIR IDDYNT CAEL EU HARFER GAN Y BWRDD GWEITHREDOL

Rhestrir yn y tabl isod swyddogaethau penodol yn y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 y caniateir iddynt gael eu harfer gan y Cyngor neu eu dirprwyo i Bwyllgor neu Swyddog o dan atodiad 1 yn dynodi p'un ai yw'r swyddogaeth yn un mae'r Cyngor yn arfer neu sydd wedi ei ddirprwyo i Bwyllgor neu Brif Swyddog. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn unol â'r Rheoliadau.

A. Swyddogaethau sy'n ymwneud â Chynllunio Gwlad a Thref a Rheoli Datblygu (o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y diwygiwyd) a Rheoliadau perthnasol, oni nodir fel arall).

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad**	**Dirprwyaeth Swyddogaethau** (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
1. Pŵer i benderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio.	Adrannau 71(a) a (b) a 72 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (p.8) (DdCGTh 1990)	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
2. Pŵer i benderfynu ar geisiadau i ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau a osodwyd o'r blaen.	Adran 73 DdCGTh 1990.	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
3. Pŵer i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi'i gyflawni.	Adran 73A DdCGTh 1990.	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
4. Pŵer i wrthod penderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio.	Adran 70A DdCGTh 1990.	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
5. Dyletswyddau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ceisiadau cynllunio.	Adrannau 69, 76 a 92 o'r DdCGTh 1990 ac Erthyglau cynllunio. 8, 10 i 13, 15 i 22 a 25 a 26 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 (O.S. 1995/419) a chyfarwyddiadau a wneir odanynt.	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
6. Pŵer i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir gan awdurdod lleol, yn unigol neu ar y cyd â pherson arall.	Adran 316 DdCGTh a'r Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (O.S. 1992/1492)	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad**	**Dirprwyaeth Swyddogaethau** (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
7. Pŵer i wneud penderfyniadau cymeradwyo a chytuno ar rai materion eraill sy'n ymwneud ag arfer hawliau datblygu a ganiateir.	Rhannau 6, 7, 11, 17, 19, 20, 21 i 24, 30 a 31 o Atodlen 2 i'r Orchymun Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Chaniateir) 1995 (O.S. 1995/418).	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
8. Pŵer i fynd i mewn i rwymedigaeth gynllunio, rheoleiddio datblygiad neu ddefnyddio tir.	Adran 106 DdCGTh 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
9. Pŵer i gyhoeddi tystysgrif o ddefnydd neu ddatblygiad cyfreithlon presennol neu arfaethedig.	Adrannau 191(4) a 192(2) DdCGTh 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
10. Pŵer i gyflwyno hysbysiad Cwblhau.	Adran 94(2) DdCGTh 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
11. Pŵer i roi caniatâd ar gyfer arddangos hysbysebion.	Adran 220 DdCGTh 1990 a'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
12. Pŵer i awdurdodi mynediad at dir.	Adran 196A DdCGTh 1990.	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
13. Pŵer i fynnu rhoi'r gorau i ddefnyddio tir.	Adran 102 DdCGTh 1990.	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
14. Pŵer i roi hysbysiad torri rheol cynllunio, hysbysiad torri amod neu hysbysiad atal.	Adrannau 171C, 187A a 183(1) DdCGTh 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
15. Pŵer i roi hysbysiad gorfodi.	Adran 172 DdCGTh 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
16. Pŵer i wneud cais am waharddeb i atal torri rheolaeth gynllunio.	Adran 178B DdCGTh 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
17. Pŵer i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus, a phwerau perthnasol. (Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990).	Adrannau 9(1) a 10 o'r Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (p.10)	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
18. Dyletswydd i benderfynu ar amodau y mae hen ganiatâd	Paragraff 2(6)(a) o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Iawndal	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad**	**Dirprwyaeth Swyddogaethau** (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
cloddio, caniatâd cynllunio perthnasol sy'n ymwneud â safleoedd segur neu safleoedd gweithredol Rhan 1 neu II, neu Ganiatâd mwynol sy'n ymwneud â safleoedd mwyngloddio, fel y bo'r achos, yn ddarostyngedig iddynt.	1991 a paragraff 9(6) o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25) a paragraff 6(5) o Atodlen 14 i'r Ddeddf honno.		
19. Pŵer i fynnu cynnal tir yn gywir.	Adran 215(1) DdCGTh 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
20. Pŵer i benderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig, a phwerau perthnasol.	Adrannau 16(1) a (2), 17 a 33(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9)	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
21. Pŵer i benderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd ardal gadwraeth.	Adran 16(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel y'i cymhwysir gan adran 74(3) o'r Ddeddf honno.	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
22. Dyletswyddau sy'n ymwneud â cheisiadau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig, a chaniatâd ardal gadwraeth.	Adran 13(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Rheoliadau 3-13 o Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
23. Pŵer i gyflwyno hysbysiad cadw adeilad, a phwerau perthnasol.	Adrannau 3(1) a 4(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
24. Pŵer i roi hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig.	Adran 38 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
25. Pwerau i gaffael adeilad rhestredig sydd angen ei atgyweirio ac i gyflwyno hysbysiad trwsio.	Adrannau 47 a 48 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad**	**Dirprwyaeth Swyddogaethau** (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
26. Pŵer i wneud cais am waharddeb mewn perthynas ag adeilad rhestredig.	Adran 44A o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Pwyllgor Cynllunio	Dim
27. Pŵer i weithredu gwaith brys.	Adran 54 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
28. Pŵer yn gysylltiedig â gwaith mwynau.	Atodlen 9 DdCGTh 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
29. Pŵer yn gysylltiedig â llwybrau troed a Llwybrau ceffylau.	Adran 257 DdCGTh 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
30. Pŵer i ardystio datblygiad amgen priodol.	Adran 17 o Ddeddf Iawndal Tir 1961 (p.33)	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
31. Dyletswyddau mewn perthynas â gorchmynion prynu.	Adrannau 137-144 DdCGTh 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid
32. Pwerau yn gysylltiedig â hysbysiad malltod.	Adrannau 149 – 171 DdCGTh 1990	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid

B. Swyddogaethau trwyddedu a chofrestru (i'r graddau nad oes unrhyw baragraff arall yn yr Atodlen hon yn ymdrin â hwy)

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad**	**Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)**
1. Pŵer i roi trwyddedau sy'n awdurdodi defnyddio tir fel safle carafannau ("trwyddedau safle").	Adran 3(3) o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 (p.62)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
2. Pŵer i drwyddedu defnyddio anheddau symudadwy a safleoedd gwersylla.	Adran 269(1) o Ddeddf Iechyd y Chyhoedd 1936 (p.49).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad**	**Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)**
3. Pŵer i drwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.	(a) o ran cerbydau hacnai, Deddf Cymalau Heddluoedd Tref 1847 (10 & 11 Vict. p. 89), fel y'i hestynnwyd gan adran 171 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 (38 a 39 Vict. p. 55), ac adran 15 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (p. 67); ac adrannau 47, 57, 58, 60 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Lleol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (p. 57); (b) o ran cerbydau hurio preifat, adrannau 48, 57, 58, 60 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
4. Pŵer i drwyddedu gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.	Adrannau 51, 53, 54, 59, 61a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
5. Pŵer i drwyddedu gweithredwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.	Adrannau 55 i 58, 62 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
6. Pŵer i gofrestru hyrwyddwyr pyllau.	Atodlen 2 i Ddeddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963 (p. 2)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
7. Pŵer i roi trwyddedau betio traciau.	Atodlen 3 i Ddeddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
8. Pŵer i drwyddedu cynlluniau betio ar gyfer traciau ar y cyd â'i.	Atodlenni 5ZA i Ddeddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
9. Pŵer i roi trwyddedau mewn perthynas â mangreoedd sydd â pheiriannau chwarae.	Atodlen 9 i Ddeddf Hapchwarae 1968 (p. 65)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol	Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad	Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
10. Pŵer i gofrestru cymdeithasau sy'n dymuno hyrwyddo loterïau.	Atodlen 1 i Ddeddf Loterïau a Difyrion 1976 (p. 32)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
11. Pŵer i roi trwyddedau mewn perthynas â mangreoedd lle darperir difyrion â gwobrau.	Atodlen 3 i Ddeddf Loterïau a Difyrion 1976	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
12. Pŵer i ddyroddi trwyddedau adloniant.	Adran 12 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (p.12).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
13. Pŵer i drwyddedu siopau rhyw a sinemâu rhyw.	Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, adran 2 ac Atodlen 3.	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
14. Pŵer i drwyddedu perfformiadau hypnotiaeth.	Deddf Hypnotiaeth 1952 (p.46)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
15. Pŵer i drwyddedu mangreoedd ar gyfer aciwbigiadau, tatws, tyllu clustiau ac electrolysis.	Adrannau 13 i 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
16. Pŵer i drwyddedu cychod pleser a llongau pleser.	Adran 94 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 (p. 53)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
17. Pŵer i drwyddedu masnachu mewn marchnadoedd ac ar y stryd.	Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ac Atodlen 4 iddi.	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
18. Y ddyletswydd i gadw rhestr o bersonau sydd â'r hawl i werthu gwenwynau nad ydynt yn feddyginiaeth.	Adrannau 3(1)(b)(ii), 5, 6 ac 11 o Ddeddf Gwenwynau 1972(p. 66)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
19. Pŵer i drwyddedu delwyr helgig a lladd a gwerthu helgig.	Adrannau 5, 6, 17, 18 a 21 i 23 o Ddeddf Anifeiliaid Hela 1831 (p. 32); adrannau 2 i 16 o Ddeddf Trwyddedau Helwriaeth 1860 (p. 90), adran 4 o Ddeddf Tollau Cartref a Chyllid y Wlad 1883 (p. 10), adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Lleol 1894 (p. 73), ac adran 213 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol	Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad	Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
20. Pŵer i gofrestru a thrwyddedu mangreoedd ar gyfer paratoi bwyd.	Adran 19 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (p. 16)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
21. Pŵer i drwyddedu iardiau sgrap.	Adran 1 o Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 1964 (p. 69) (*dim mewn grym bellach)*	Dim yn perthnasol	Dim yn perthnasol
22. Pŵer i ddyroddi, diwygio neu amnewid tystysgrifau diogelwch (cyffredinol neu arbennig) ar gyfer meysydd chwaraeon.	Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975 (p. 52)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
23. Pŵer i ddyroddi, dileu, diwygio neu amnewid tystysgrifau diogelwch ar gyfer standiau rheoledig mewn meysydd chwaraeon.	Rhan III o Ddeddf Diogelwch Rhag Tân a Diogelwch Lleoedd Chwaraeon 1987 (p.27)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
24. Dyletswydd i hyrwyddo diogelwch rhag tân.	Adran 6 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21)	Mae cyfrifoldeb yn nwylo Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	Ddim yn berthnasol
25. Pŵer i drwyddedu mangreoedd ar gyfer bridio cwn.	Adran 1 o Ddeddf Bridio Cwn 1973 (p. 60) ac adran 1 o Ddeddf Bridio a Gwerthu Cwn (Lles) 1999 (p. 11).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
26. Pŵer i drwyddedu siopau anifeiliaid anwes a sefydliadau eraill lle caiff anifeiliaid eu bridio neu eu cadw er mwyn cynnal busnes.	Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 (p. 35)(22); adran 1 o Ddeddf Sefydliadau Byrddio Anifeiliaid 1963(p. 43)(23); Deddfau Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970 (1964 p. 70 a 1970 p. 70)(24); adran 1 o Ddeddf Bridio Cwn 1973 (p. 60)(25), ac adrannau 1 ac 8 o Ddeddf Bridio a Gwerthu Cwn (Lles) 1999.	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
27. Pŵer i gofrestru hyfforddwyr ac arddangoswyr anifeiliaid.	Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925 (p.38)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
28. Pŵer i drwyddedu swau.	Adran 1 o Ddeddf Trwyddedu Swau 1981 (p. 37)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad**	**Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)**
29. Pŵer i drwyddedu anifeiliaid gwyllt peryglus.	Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (p. 38)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
30. Pŵer i orfodi rheoliadau mewn perthynas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid.	Rheoliad 49 o Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1292 (Cy.127))	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
31. Pŵer i drwyddedu cyflogi plant.	Rhan II o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (p. 12), is-ddeddfau a wneir o dan y Rhan honno, a Rhan II o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 (p. 37).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar
32. Pŵer i gymeradwyo mangreoedd ar gyfer gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil.	Adran 46A o Ddeddf Priodasau 1949 (p. 76), adran 6A o Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004 (p.33) a Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Mangreoedd a Gymeradwywyd) 2005 (O. S. 2005/3168)	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid
33. Pŵer i gofrestru tir comin neu feysydd gleision trefi neu bentrefi, ac eithrio os yw'r pwer yn arferadwy ar gyfer rhoi effaith i'r canlynol yn unig— 3(a)cyfnewid tiroedd y mae gorchymyn o dan adran 19(3) o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p.67) neu baragraff 6(4) o Atodlen 3 iddi yn rhoi effaith iddo (p. 67); neu 3(b)gorchymyn o dan adran 147 o Ddeddf Amgáu Tiroedd 1845 (p. 8 a 9 Vict. p. 118)	Rheoliad 6 o Reoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Tir Newydd) 1969 (O.S. 1969/1843).	Y Cyngor	Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid
34. Pŵer i gofrestru amrywiadau ar hawliau comin.	Rheoliad 29 o Reoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) 1966 (O.S. 1966/1471)	Y Cyngor	Dim
35. Pŵer i ddyroddi trwydded i gasglu ar gyfer achosion elusennol.	Adran 68 o Ddeddf Elusennau 1992.	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad**	**Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)**
36. Pŵer i roi cydsyniad ar gyfer gweithredu uchelseinydd.	Atodlen 2 i Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 (p. 40).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
37. Pŵer i roi trwydded ar gyfer gweithfeydd stryd.	Adran 50 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22).	Y Cyngor	Prif Swyddog Amgylchedd a Thechnegol
38. Dyletswydd i gofrestru symudiadau moch.	Rheoliadau 21(3) and (4) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod (O.S. 2004/996 (Cy.104)).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
39. Pŵer i orfodi rheoliadau mewn perthynas â symud moch.	Rheoliad 27(1) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004 (O.S. 2004 /996 (Cy.104)).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
40. Pŵer i ddyroddi trwydded i symud gwartheg o farchnad.	Erthygl 5(2) o Reoliadau Adnabod Gwartheg 1998 (O.S. 1998/871).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
41. Pŵer i roi hawl i rannau o adeiladau gael eu defnyddio i storio seliwloid.	Adran 1 o Ddeddf Ffilmiau Seliwloid a Sinematograff 1922 (p. 35).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
42. Y ddyletswydd i orfodi a gweithredu Rheoliadau (EC) Rhif 852/2004 a 853/2004 mewn perthynas â gweithredwyr busnesau bwyd fel y'u pennir ymhellach yn rheoliad 5 o Reoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006.	Rheoliad 5 o Reoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006.	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
43. Swyddogaethau mewn perthynas â sefydlu Pwyllgor Trwyddedu.	Adran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (p.17).	Y Cyngor	Dim

CH. Swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad**	**Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)**
Swyddogaethau o dan unrhyw un o'r "darpariaethau statudol perthnasol" o fewn ystyr Rhan I (iechyd, diogelwch a lles mewn cysylltiad â gwaith, a rheoli sylweddau peryglus) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974, i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny'n cael eu cyflawni mewn fordd wahanol i'w cyflawni yn rhinwedd swyddogaeth yr awdurdod fel cyflogwr.	Rhan I o Ddeddf Iechyd Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 (p. 37).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
1 Y ddyletswydd i benodi swyddog cofrestru etholiadol.	Adran 8(2A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2)(Section 8(2A) Representation of the People Act 1983 (c.2) (RPA 1983)	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
2 Pŵer i ddyrannu swyddogion mewn perthynas ag angenrheidiau'r swyddog cofrestru.	Adran 52(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
3 Pŵer i ddileu cynghorau cymuned.	Adran 27D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
4 Pŵer i wneud gorchmynion ar gyfer grwpio cymunedau.	Adran 27F neu 27H Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
5 Pŵer i wneud gorchmynion i ddileu grwpiau a gwahanu cynghorau cymuned oddi wrth grwpiau.	Adran 27 neu 27L Ddeddf Llywodraeth Leol 1972	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
6 Y ddyletswydd i benodi swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.	Adran 35 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
7 Y ddyletswydd i roi cymorth yn etholiadau'r Senedd Ewropeaidd.	Adran 6(7) ac (8) o Ddeddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002.	Y Cyngor	Prif Weithredwr
8 Y ddyletswydd i rannu'r etholaeth yn rhanbarthau pleidleisio.	Adran 18 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol

Swyddogaethau	Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol	Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad	Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
9 Pŵer i rannu adrannau etholiadol yn rhanbarthau pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol.	Adran 31 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
10 Pwerau mewn perthynas â chynnal etholiadau..	Adran 39(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
11 Pŵer i dalu treuliau a dynnir yn briodol gan swyddogion cofrestru etholiadol.	Adran 54 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.	Y Cyngor	Prif Weithredwr
12 Pŵer i lenwi lleoedd gwag os na cheir digon o enwebiadau.	Adran 21 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985.	Y Cyngor	Prif Weithredwr
13 Y ddyletswydd i ddatgan bod lle gwag mewn swydd mewn achosion penodol.	Adran 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972	Y Cyngor	Prif Weithredwr
14 Y ddyletswydd i roi hysbysiad cyhoeddus o le gwag achlysurol.	Adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.	Y Cyngor	Prif Weithredwr
15 Pŵer i wneud penodiadau dros dro i gynghorau cymuned.	Adran 91 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.	Y Cyngor	Prif Weithredwr
16 Pŵer i ddyfarnu ar ffioedd ac amodau ar gyfer rhoi copïau o ddogfennau etholiadol neu ddarnau allan ohonynt.	Rheol 48(3) o Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) 1986 (O.S. 1986/2214) a rheol 48(3) o Reolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) 1986 (O.S. 1986/2215).	Y Cyngor	Prifweithredwr
17 Pŵer i gyflwyno cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer gorchymyn o dan adran 10 (cynlluniau peilot ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.	Adran 10 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p.2).	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol

D. Swyddogaethau sy'n ymwneud ag enw a statws ardaloedd ac unigolion

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad**	**Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)**
1 Pŵer i newid enw sir, neu enw bwrdeistref sirol.	Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
2 Pŵer i newid enw cymuned.	Adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
3 Pŵer i roi teitl henadur mygedol neu i dderbyn rhywun yn rhyddfreiniwr mygedol.	Adran 249 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
4 Pŵer i ddeisebu o blaid siarter i roi statws bwrdeistref sirol.	Adran 245A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol

Dd. Pŵer i wneud, diwygio, dirymu neu ailddeddfu is-ddeddfau

Swyddogaethau	Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol	Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad	Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
Ddim yn berthnasol	Unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys Deddf leol), pryd bynnag y cafodd ei phasio, ac adran 14 o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 300)	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol

E. Pŵer i hyrwyddo neu i wrthwynebu Mesurau Preifat

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad**	**Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)**
Ddim yn berthnasol	Adrannau 52 a 53 Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol

F. Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau etc.

Swyddogaethau	Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol	Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad	Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
1 Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau llywodraeth leol, etc.	Rheoliadau o dan adran 7, 12 neu 24 o Ddeddf Blwydd-dal 1972 (p.11)	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
2 Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau, lwfansau ac arian rhodd.	Rheoliadau o dan adran 18(3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42).	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
3 Swyddogaethau o dan gynlluniau pensiwn sy'n bodoli eisoes o ran personau sy'n cael eu cyflogi gan awdurdodau tân ac achub yn unol ag adran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.	Adrannau 34 a 36 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol

Ff. Swyddogaethau amrywiol

Swyddogaethau	Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol	Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad	Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
1. Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl y digwydd).	Rheoliadau a wnaethpwyd o dan adran 39 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwylio	Ddim yn berthnasol
3. Pwerau sy'n ymwneud â chadw coed.	Adrannau 197 i 214D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 (O.S. 1999/1892).	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheioleiddio
4. Pwerau sy'n ymwneud â diogelu gwrychoedd (perthi) pwysig.	Rheoliadau Gwrychoedd (Perthi) 1997 (O.S. 1997/1160).	Pwyllgor Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio a Rheioleiddio
5. Pŵer i wneud rheolau sefydlog.	Adran 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a pharagraff 42 o Atodlen 12 iddi.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
6. Penodi a diswyddo staff.	Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac adrannau 7 ac 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.	Cyngor mewn perthynas a penodi Prif Weithredwr Pwyllgor Apwyntiadau mewn perthynas a Prif Swyddogion	Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion
Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn**	**Pwyllgor/Corff gwneud**	**Dirprwyaeth**

	Deddf neu Offeryn Statudol	**penderfyniad**	**Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)**
7.Pŵer i wneud rheolau sefydlog ynghylch contractau.	Adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
8. Pŵer i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.	Adran 19 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p.10).	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
9. Pŵer i wneud gorchymyn yn nodi lle fel lle cyhoeddus dynodedig at ddibenion pwerau heddlu mewn perthynas ag yfed alcohol.	Adran 13(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p.16).	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
10. Y pwerau mewn perthynas â chofrestru gweithredwyr achub cerbydau modur.	Rhan 1 o Ddeddf Cerbydau (Troseddau) 2001 (p.3).	Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
11. Pŵer i benodi swyddogion at ddibenion penodol (penodi “priod swyddogion”).	Adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
12. Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod, ac i ddarparu staff, etc.	Adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42)	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
13. Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn swyddog monitro, ac i ddarparu staff, etc.	Adran 5(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
14. Y ddyletswydd i ddyfarnu ar derfyn benthyca fforddiadwy.	Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.22).	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
15. Cymeradwyo strategaeth fuddsoddi flynyddol yn unol â chanllawiau.	Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
16. Y ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol.	Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.11).	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
17. Pŵer i neud neu diddymu gorchymyn yn dynodi ardal fel parth afreolys alcohol.	Adran 16 Ddeddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006 (p.38)	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol

Swyddogaethau	Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol	Pwyllgor/Corff gwneud penderfyniad	Dirprwyaeth Swyddogaethau (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
18. Swyddogaethau sy'n ymwneud ag absenoldeb teuluol Aelodau Awdurdodau Lleol.	Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol

SWYDDOGAETHAU ERAILL NI CHANT FOD YN GYFRIFOLDEB Y GWEITHREDIAETH yn ôl Rheoliad 3

(5) Y swyddogaeth o wneud unrhyw gynllun yn awdurdodedig neu sy'n ofynnol gan Reoliadau o dan adran 18 (cynlluniau ar gyfer lwfansau sylfaenol, presenoldeb a chyfrifoldeb arbennig i aelodau awdurdodau lleol) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y'i diwygiwyd), neu ddiwygio, diddymu neu ddisodli unrhyw gynllun o'r fath.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
(6) Y swyddogaethau o benderfynu - (a) swm unrhyw lwfans sy'n daladwy o dan - (i) isadran 5 o adran 3 (Treuliau Cadeirydd) o Ddeddf 1972; (ii) isadran 4 o adran 5 (Treuliau Is-Gadeirydd) o'r Ddeddf honno; (iii) isadran (4) o adran 173 (Lwfans Colled Ariannol) o'r Ddeddf honno; (iv) adran 175 (lwfansau am fynychu cynadleddau) a chyfarfodydd y Ddeddf honno (b) y cyfraddau y gwneir taliadau o dan adran 174 (lwfansau teithio a chynhaliaeth) y Ddeddf honno; (c) swm unrhyw lwfans sy'n daladwy yn unol â chynllun o dan adran 18 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, neu'r cyfraddau y gwneir y taliadau; (d) lle dylid codi tâl am unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, neu gofrestriad, lle nad yw'r mater yn gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol; a (e) phan godir tâl am unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, neu gofrestriad o'r fath, swm y tâl.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol
(8) & (9) Yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth o reoliadau o dan adran 20 (arfer swyddogaethau ar y cyd) Deddf Llywodraeth Leol 2000, swyddogaeth- (a) gwneud trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan bwyllgor neu swyddog o dan Adran 101(5) Deddf 1972, a (b) gwneud penodiadau o dan Adran 102 (penodi pwyllgorau) o Ddeddf 1972.	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol

(10) Unrhyw swyddogaeth arall sydd, yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad a wnaed cyn y Rheoliadau, yn darparu y gellir ei arfer gan awdurdod yn unig (oni ddarperir fel arall yn rhywle arall yn y tabl hon)	Y Cyngor	Ddim yn berthnasol

SWYDDOGAETHAU ERAILL NI CHANT FOR YN GYFRIFOLDEB Y GWEITHREDIAETH

Hyrwyddo a chadw safonau ymddygiad uchel o fewn y Cyngor	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio ei God Ymddygiad. Monitro a chynghori'r Cyngor ar weithredu ei God Ymddygiad yng ngoleuni arfer gorau, newidiadau yn y gyfraith, ac arweiniad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cyngor a / neu hyfforddiant i Aelodau ac Aelodau cyfetholedig o'r Awdurdod Swyddogaethau sy'n ymwneud â safonau ymddygiad aelodau o dan unrhyw ddarpariaeth berthnasol, neu reoliadau a wneir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Caniatáu goddefebau yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001	Pwyllgor Safonau	Ddim yn berthnasol